

galeri



Swydd: Prentis Technegol: Goleuo
Adran: Adnoddau
Yn atebol i: Cyfarwyddwr Adnoddau / Technegwyr

Dyddiad cau: 17.00 : Mawrth, 31.07.18
Ceisiadau ar Ffurflen Gais a cynnwys CV hefyd ogydd

Cyfweliadau: Dyddiad i'w gadarnhau
I ddechrau: Medi 2018

Cyflog: £4.00 yr awr
Oriau: 37 awr yr wythnos
[ROTA Llun – Sul fydd yn cynnwys oriau anghymdeithasol, penwythnosau a Gwyliau Banc]

Os oes angen gwybodaeth pellach neu sgwrs anffurfiol:

Iona Davies **01286 685 218** **iona.davies@galericaernarfon.com**

Cefndir / Prif bwrpas y swydd:

Mae Galeri yn gartref i bob math o gynhyrchiadau amrywiol – theatr, cerddoriaeth, dawns, comedi, sgysrsiau, ffilmiau yn ogystal a bod yn leoliad ar gyfer digwyddiadau preifat megis cynadleddau/cyfarfodydd, ciniawau/gwobrau a priodasau ac ati.

Rydym yn chwilio am berson (oed 16+) i ymunno â'r tîm technegol. Fe fydd y swydd yn datblygu sgiliau person ifanc mewn agweddau penodol o gynhyrchiadau technegol yn bennaf goleuo ac fe fyddwch yn gweithio hefo technegwyr proffesiynol i:

- Ddarparu a throsglwyddo gwasanaeth Technegol yn ol yr angen
- Ddewis a defnyddio systemau diogel o weithio ar gyfer gweithio ar uchder
- Ddefnyddio offer adeiladu neu cynnal a chadw
- Gadw glendid y safle gwaith
- Ddarparu gwasanaeth yn ystod 'Get ins' / Gosod / a 'Get Outs'
- Redeg cynhyrchiadau cyfredol
- Osod a gwyrio offer
- Gynllunio anghenion goleuo ar gyfer cynhyrchiadau
- Weithredu goleuo ar gyfer perfformiadau byw
- Weithredu 'follow spot' ar gyfer perfformiadau byw
- Sicrhau cydymffurfio hefo'r rheoliadau perthnasol

- Fod yn bresennol mewn cyfarfodydd staff/ cyfarfodydd gweithrediadau a sesiynnau hyfforddiant
- Weithredu'r dyletswyddau yn unol â pholisiau Iechyd a Diogelwch / Polisi Cyfle Cyfartal y Cwmni ar bob achlysur. Fe all hyn gynnwys helpu gyda trefn ymgilio'r adeilad pe bai na sefyllfa argyfwng
- Sicrhau rheolaeth personol o amser i gwblhau'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster a hel tystiolaeth ar gyfer eich portfolio

Mae'r prentisiaeth yn cynnwys dysgu yn y gwaith ynghyd â hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith sy'n arwain at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol. Bydd Galeri yn gweithio mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai ar gyfer yr hyfforddiant.

Nodweddion personol:

- Profiad blaenorol o weithio mewn Theatr Dechnegol (boed o'n wirfoddoli neu mewn cynhyrchiadau ysgol/ coleg)
- Y gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg
- Gwybodaeth o weithio mewn mannau tu ol i lwyfan a'r offer sy'n cael ei ddefnyddio
- Y gallu i weithio'n gyfannol a hel tystiolaeth i'ch portfolio
- Agwedd positif, adeiladol, cyfeillgar a hyblyg pan yn delio hefo staff eraill, cwsmeriaid a chwmnïau ymweld
- Adnabod pryd y gallwch weithio ar eich cymhwyster yn rhan o'ch wythnos waith
- Sgiliau rhyngpersonol a gwaith tim rhagorol hefo'r gallu i weithio hefo adrannau eraill y Cwmni i sicrhau llwyddiant cynhyrchiadau a digwyddiadau
- Sgiliau cyfrifiadurol
- Y gallu i weithio oriau anghymdeithasol fydd yn cynnwys penwythnosau a Gŵyl Banc
- Gallu glynu wrth bolisiau Iechyd a Diogelwch y Cwmni sy'n gysylltiedig hefo gweithio tu ol i lwyfan, gweithio ar uchder, trafod â llaw a gweithio hefo trydan yn ogystal â gwisgo gwsg pwrpasol lle'n ofynnol
- Awyddus i ddatblygu eu hunain a dysgu sgiliau newydd



galericaernarfon.com

Twitter: @_Galeri_

Facebook: /GaleriCaernarfon